CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth y 14eg o Orffennaf 2026 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Miriam Webb, Eleri Puw, Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Dylan Jarman; Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Miriam Webb. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Fehefin** ar gynnig Cyng. Robert D Jones a'i eilio gan Cyng Emrys Thompson.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Trafodwyd ymhellach problem ceir yn parcio o flaen tafarn y Railway a mynedfa Stryd Llanegryn, ac ymateb pellach Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig. Gwelwyd fod yn bwysig cofnodi fod y Cyngor Cymuned wedi dod a pwysigrwydd y mater i sylw

Yng nghyswllt camfa wrth fynedfa Coed Cedris, nodwyd ymateb Gwyn Ll Evans, a'r bwriad i osod giat.

Nodwyd y meinciau gafwyd yn 2025, ac a ellid gofyn i 'Tim Tacluso' ddod i dorri gwair o'u cwmpas, a hefyd ychydig o'r gwrych.

Roedd arwydd wedi torri ar ben rhiw Cwrt, ac addawodd Cyng Robert Jones edrych ar hyn.

b) **Safle treftadaeth/Celf Cyhoeddus** – adroddwyd y gohebiaeth diweddaraf gan Bet Huws, ac nad oedd angen cael caniatad cynllunio. Roeddynt bellach yn chwilio am brisiau y wagen.

c) **Stryd Tanybryn** – trafodwyd y diweddaraf, a bod cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer **pnawn Gwener y 4ydd o Fedi am 4yp**, a chadarnhad y byddai Mabon ap Gwynfor yn bresennol. Byddai'r Clerc yn gwahodd cynrychiolwyr o wahanol gyrff, sef CADW, Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd, a'r Parc Cenedlaethol. Gwelwyd y byddai yn beth da cyfarfod yn y Ganolfan i ddechrau, gyda chyfle i Rachel Burgess i amlinellu y broblem, ac yna mynd i weld y safle.

**d)** **Cynllun trafnidiaeth Cymunedol** – nodwyd y diweddaraf am y cynllun.

**e)** **Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned** – Roedd yr holl ohebiaeth wedi ei ddanfon i'r Cynghrowyr. Roedd amcangyfrif GL Jones wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd,, er nad oedd y rhataf ar bapur. Roedd y safon llawer uwch na'r amcangyfrifon eraill, ac roedd Cyngor Gwynedd wedi derbyn y cyfiawnhad. Roedd G Ll Jones hefyd wedi disgyn eu pris i £9750 (TAW ychwanegol) yn dilyn

pwysau arnynt. Byddai £5500 felly yn cael ei hawlio o'r grant, a £4250 yn fewnol gan y Cyngor. Cadarnhwyd y gellid rhoi yr archeb i mewn.

Tra'n trafod y Cae chwarae, nodwyd adroddiad RoSPA oedd i law yn rhoi y prif ganlyniadau a'r argymhellion. Byddai'r Clerc yn ei dosbarthu yr adroddiad llawn mor fuan a phosib..

**f) Coed i'w torri yn wal yr afon ger Heol y Dwr** – byddai'r Clerc yn cysylltu gyda enwau y 3 a roddwyd i gael amcangyfrif i wneud y gwaith yma ym mis Hydref eleni.

5. **Materion Cynllunio** Roedd llythyr gan Iona Roberts o'r Parc Cenedlaethol yn rhoi trosolwg byr o Wasanaeth Cydymffurfiaeth yr Awdurdod – byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu er gwybodaeth i bawb.

6. **Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau** y cyfrifon o'r datganiadau, sef Cyfri cyfredol 22.06.26 - £6517.29, a cyfri Business Reserve 30.06.26 - £16,693.63. Roedd y broses o ychwanegu enwau i arwyddo ar y cyfrif, a'r broses o gael bancio ar-lein yn mynd yn ei flaen.

**b) Anfonebau**; - ar gynnig Cyng Eleri Puw a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts cytunwyd i dalu y canlynol;

- **Pads newydd i'r di-fib** (cofnod 10 ar gofnodion 9.06.26) - £76.40
- **Defnydd y Ganolfan i'r Cyngor Cymuned** - Mehefin i Dachwedd 2026 - £90
- **Torri gwair** maes chwarae Abergynolwyn a mynwent Llanfihangel y Pennant - toriad Mehefin £680. Hefyd toriad Gorffennaf £1280 (oedd yn cynnwys torri gwair mynwent y Fedw a gwrych yn Llanfihangel)
- **Cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc** £625.09 a HMRC £156.20
- **Playsafety Limited** £104.40 - archwiliad maes chwarae.
- Taliad Cyng Beth Lawton am flodau £32.33

c) **Ceisiadau am arian**

- Cyfraniad tuag at Trafnidiaeth Gymunedol Tywyn a'r ardal (TAITH) – penderfynwyd trafod y tro nesaf, ac yn y cyfamser, gwneud ymholiadau.
- PTA Ysgol Craig y Deryn – cost cludo plant i nofio – penderfynwyd trafod y tro nesaf.

7. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Cyfeiriodd Cyng Beth Lawton at ei gwaith yn yr ardal, a'r Pwyllgorau yr oedd yn mynychu yn Caernarfon. Atgpffwyd pawb fod etholiad i holl Gynghorau Cymuned a Thref ym Mai 2027.

8. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Adroddwyd am gyfarfodydd yr oedd wedi mynychu. Roedd posibilrwydd gweld mwy o gyfrifoldebau i Gynghorau Cymuned i'r dyfodol. Roedd siom yn y nifer

oedd yn mynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru, a holwyd gwestiynau caled am beth oedd y rheswm am hyn. Rhaid oedd cael mewnbwn Cynghorau Cymuned os oedd yna ddylanwadu ar  Lywodraeth Cymru.

**9. Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - nid oedd unrhyw ddiweddariad y tro hwn

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru,** a byddai'r Clerc y neu dosbarthu i'r Cynghorwyr yn ol yr angen. Nodwyd y modiwlau digidol newydd.

Roedd cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Nos Fercher 15fed Gorffennaf.

*c)* Nodwyd cais am adborth gan y Parc Cenedlaethol yng nhyswllt proffiliau anheddau yn y Parc Cenedlaethol. Roedd hwn wedi ei ddanfon i'r Cynghorwyr 25.06.26. Roedd angen ymateb cyn diwedd Gorffennaf gyda unrhyw wybodaeth lleol gan Gynghorwyr.

*d)* Nodwyd wybodaeth am Fyrddau Gwybodaeth Taith Mary Jones,  i'w gosod 8fed a 9fed Gorffennaf.

e) Roedd gwybodaeth am 'Ddyddiau Tawel' yn Eglwys Llanfihangel y Pennant, sef 24ain Gorffennaf a 21ain Awst ac roedd y Clerc wedi danfon ymlaen i'r contractwyr torri gwair yn ol y gofyn – er mwyn osgoi y yddiadau yma ar gyfer y gwaith.

**10. Unrhyw fater arall**

- Roedd tyfiant mawr yn y gwrychoedd ar Heol Llanegryn, ac angen sylw ar frys.
- Roedd pryder mawr am y nifer o geir oedd yn parcio yn y gulfan fawr ar ben Rhiw Talyllyn, gan gynnwys y nifer cynyddol yn aros dros nos. Gofynnwyd a ellir cael toiledau yno. Roedd hyn bellach yn berygl/risg o saflwynt iechyd yr amgylchedd, gyda nifer cynyddol yn defnyddio y tir gerllaw. Roedd angen dwyn hyn i sylw Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd.
- Roedd angen torri mwy o ystod o wair ochrau ffyrdd, ac addawodd Cyng Beth Lawton ymdrin a hyn.
- Mynegwyd ein cydymdeimlad dwysaf a theulu y diweddar Gareth Evans Abergynolwyn a fy farw yn ddiweddar. Roedd wedi gwasanaethu ar y Cyngor Cymuned am flynyddoedd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF;   Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN  NOS FAWRTH 8fed Medi 2026 , 7.00y.h.**

**.........................................................................................................................................**

**Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 14 July 2026 at 7:00 pm at the Ganolfan Abergynolwyn**

**Present:** Cllr Miriam Webb, Eleri Puw, Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D. Jones, Dylan Jarman; Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T. Jones (Clerk).

## 1. Welcome and Declarations of Interest

The Chair, Cllr Miriam Webb, extended a warm welcome to everyone present. There were no declarations of interest.

## 2. Public Participation

It was noted that no requests had been received from members of the public to make presentations on matters included on the agenda.

## 3. Minutes of the Previous Meeting

The minutes of the meeting held on **9 June 2026** were confirmed on the proposal of Cllr Robert D. Jones, seconded by Cllr Emrys Thompson.

## 4. Matters Arising

### a) Highways and Public Rights of Way

- The ongoing problem of cars parking outside the Railway Inn and at the entrance to Llanegryn Street was discussed further, together with the latest response from Andrew Gregson, Senior Traffic Engineer. It was considered important to record that the Community Council had drawn attention to the seriousness of this issue.
- Regarding the stile at the entrance to Coed Cedris, the response from Gwyn Ll. Evans and the intention to install a gate were noted.
- The benches installed in 2025 were discussed, and it was suggested that the "Tidying Team" be asked to cut the grass around them and trim some of the hedge.
- A road sign at the top of Cwrt Hill had been damaged, and Cllr Robert Jones agreed to inspect it.

### b) Heritage Site / Public Art
The latest correspondence from Bet Huws was reported. Planning permission would not be required. The group was now seeking quotations for the wagon.

### c) Tanybryn Street
The latest developments were discussed. A meeting had been arranged for **Friday, 4 September at 4:00 pm**, and it was confirmed that Mabon ap Gwynfor would attend. The Clerk would invite representatives from CADW, Gwynedd Council Highways Department and the National Park Authority. It was agreed that it would be useful to meet first at the Community Centre, where Rachel Burgess could outline the problem before visiting the site.

### d) Community Transport Scheme
An update on the scheme was noted.

### e) Community Council Support Fund
All correspondence had been circulated to councillors. Gwynedd Council had received G.L. Jones's quotation. Although it was not the cheapest on paper, the quality was significantly higher than the other quotations, and Gwynedd Council had accepted the justification. G.L. Jones had also reduced the price to **£9,750 plus VAT** following negotiations. It was agreed that **£5,500** would be claimed from the grant and **£4,250** funded by the Council. Approval was given to place the order.

While discussing the playground, the RoSPA inspection report was noted, highlighting its main findings and recommendations. The Clerk would circulate the full report as soon as possible.

**f) Trees to be Cut Along the River Wall near Heol y Dŵr**
The Clerk would contact the three contractors previously suggested to obtain quotations for carrying out the work in October.

## 5. Planning Matters

A letter from Iona Roberts of the National Park Authority giving a brief overview of the Authority's Compliance Service was noted. The Clerk would circulate it to councillors for information.

## 6. Financial Matters

**a) Account Balances**
The following balances were noted:

- Current Account (22.06.26): **£6,517.29**
- Business Reserve Account (30.06.26): **£16,693.63**

The process of adding additional signatories to the account and introducing online banking was progressing.

**b) Invoices**
On the proposal of Cllr Eleri Puw, seconded by Cllr Gwynedd Roberts, it was agreed to pay:

- New pads for the defibrillator (Minute 10, 09.06.26) – **£76.40**
- Community Centre hire for Community Council meetings (June–November 2026) – **£90.00**
- Grass cutting at Abergynolwyn Playing Field and Llanfihangel y Pennant Cemetery:
    - June cut – **£680.00**
    - July cut – **£1,280.00** (including grass cutting at Bethel Cemetery and hedge trimming at Llanfihangel)
- Clerk's first quarter salary – **£625.09**
- HMRC – **£156.20**
- Playsafety Limited – **£104.40** (playground inspection)
- Reimbursement to Cllr Beth Lawton for flowers – **£32.33**

**c) Grant Applications**

- Contribution towards Community Transport Tywyn and District (TAITH) – deferred until the next meeting while further enquiries are made.
- Craig y Deryn School PTA – contribution towards children's swimming transport costs – deferred until the next meeting.

## 7. Report from Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council)

Cllr Beth Lawton reported on her work within the area and on the committees she attends in Caernarfon. Everyone was reminded that elections for all Community and Town Councils will take place in **May 2027**.

## 8. Report from Cllr Elwyn Evans (One Voice Wales Representative)

Cllr Evans reported on meetings he had attended. There was discussion about the possibility of Community Councils taking on additional responsibilities in future. Disappointment was expressed at the poor attendance at One Voice Wales meetings, and difficult questions had been asked about the reasons for this. It was emphasised that Community Councils must participate if they wish to influence the Welsh Government.

## 9. Correspondence

**a)** Llanfihangel y Pennant Cemetery – no update on this occasion.

**b)** One Voice Wales training sessions were noted. The Clerk would circulate details to councillors as required. The new digital training modules were also noted. The Annual Meeting and Annual General Meeting were to be held on **Wednesday, 15 July**.

**c)** A request from the National Park Authority for feedback regarding settlement profiles within the National Park was noted. This had been circulated to councillors on **25 June 2026**. Responses containing any local knowledge were required before the end of July.

**d)** Information boards for the Mary Jones Trail, due to be installed on **8 and 9 July**, were noted.

**e)** Information was received regarding "Quiet Days" at Llanfihangel y Pennant Church on **24 July** and **21 August**. The Clerk had already informed the grass-cutting contractors so that maintenance work would avoid these dates.

## 10. Any Other Business

- The hedges along Llanegryn Road had become heavily overgrown and required urgent attention.
- Serious concern was expressed about the number of vehicles parking in the large lay-by at the top of Talyllyn Hill, including the increasing number staying overnight. It was asked whether toilet facilities could be provided there. This was now considered an environmental health risk, as increasing numbers of people were using the adjacent land. The matter should be brought to the attention of Eryri National Park Authority and Gwynedd Council.
- More extensive grass cutting was required along roadside verges, and Cllr Beth Lawton agreed to pursue this.
- The Council expressed its deepest sympathy to the family of the late Gareth Evans of Abergynolwyn, who had recently passed away. He had served on the Community Council for many years.

---

**Date of Next Meeting:**
**Tuesday, 8 September 2026, 7:00 pm**
**The Y Ganolfan, Abergynolwyn**